# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 4 Gorffennaf 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd
3 Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Datblygu Economaidd yn Ne-orllewin Cymru

**C7 Cynog Dafis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffordd y mae'r Cynulliad yn hybu datblygu economaidd yn ne-orllewin Cymru? (OAQ18790) [W]

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies):** Mae'r Prif Weinidog a minnau wedi pennu ein strategaeth datblygu economaidd yn 'Cymru'n Ennill'. Mae hon yn darparu fframwaith clir ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ogystal â Thîm Cymru a busnesau. Yr wyf yn cadw golwg agos ar ddatblygiadau economaidd y maes, yn arbennig drwy fforwm economaidd de-orllewin Cymru, y mynychais ei gyfarfod yr wythnos diwethaf, a thrwy gyfarfodydd rheolaidd â chyfarwyddwr Awdurdod Datblygu Cymru dros orllewin Cymru.

### Band Llydan yng Ngogledd Cymru

**C8 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau y mae'r Cynulliad yn eu cymryd i sicrhau bod gwasanaethau rhyngrwyd band llydan ar gael yng ngogledd Cymru a bod pobl yn gwneud defnydd ohonynt? (OAQ18712)

**Andrew Davies:** O ran gogledd Cymru, yr ydym wedi cefnogi sawl menter a gynlluniwyd i ddod a mynediad band llydan fforddiadwy o fewn cyrraedd llawer mwy o bobl, a byddwn yn parhau i ddilyn y mentrau hynny. Mae'r rhain yn cynnwys:

- prosiect band llydan di-wifren fydd yn peilota'r defnydd o dechnoleg 802.11b;
- Haen 6 o'r prosiect Llwybr/Pathway a ddaeth a gwasanaethau llinell danysgrifio ddigidol anghymesur i drefi Bangor, Caergybi, Dinbych a Llandudno yng ngogledd Cymru;
- negodiadau manwl parhaus ar sicrhau bod seilwaith band llydan y Cynulliad ar gael ar hyd yr A55;
- y rhwydwaith dysgu gydol oes a ddaw a phwyntiau presenoldeb cyflym i wyth awdurdod lleol yng ngogledd Cymru.

Yn ogystal â hynny, gwnaf ddatganiad pwysig cyn bo hir ar weithredu'r adroddiad Analysys ar fand llydan yng Nghymru. Disgwyliaf y bydd y ffordd hon ymlaen yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau band llydan fforddiadwy ar gael yn fwy eang ledled Cymru.

### Diweithdra yng Ngorllewin Cymru

**C9 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddiweithdra yng ngorllewin Cymru? (OAQ18797) [W]

**Andrew Davies:** Cyfradd ddiweithdra gorllewin Cymru—Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro—yw 4.2 y cant. Mae'r ffigur wedi syrthio dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae diweithdra dros Gymru gyfan ar ei lefel isaf ers 27 o flynyddoedd.

### Cymorth Rhanbarthol Dewisol

**C10 Brian Hancock:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i gydweithwyr ynghylch darparu gwybodaeth ar nifer y cwmnïau cynhenid Cymreig sy'n cael cymorth rhanbarthol dewisol? (OAQ18766)

**Andrew Davies:** Cafodd fy swyddogion drafodaethau gydag ystadegwyr sy'n cydweithio â hwy ynglŷn â dadansoddi cymorth rhanbarthol dewisol gan gwmnïau cynhenid yng Nghymru. Bu gobaith y byddai wedi bod yn bosibl cyfateb y cymorth rhanbarthol dewisol â'r cronfeydd data cofrestrau busnes rhyngadrannol erbyn hyn i ddod i ganlyniad. Fodd bynnag, bu rhai problemau â hyn, ac yr wyf yn awr wedi gofyn i staff gynhyrchu'r ffigurau o sganiau o'r ffeiliau. Byddaf yn adrodd i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar hyn yn ei gyfarfod ar 10 Gorffennaf.

### Mentrau Bach a Chanolig eu Maint

**C11 Brian Hancock:** A wnaiff y Gweinidog adrodd lle mae Cyllid Cymru arni o ran darparu cyllid ar gyfer mentrau bach a chanolig eu maint? (OAQ18765)

**Andrew Davies:** Erbyn diwedd Ebrill 2002, yr oedd Cyllid Cymru eisoes wedi rhoi cymorth i dros 540 o fentrau bach a chanolig eu maint, wedi creu neu ddiogelu bron i 4,200 o swyddi, wedi buddsoddi £13.5 miliwn ac wedi denu dros £45 miliwn o gyllid sector preifat.

Dros y pum mlynedd nesaf, mae Cyllid Cymru yn gobeithio rhoi cymorth i 4,000 o fusnesau bach gyda photensial i dyfu, gan greu 10,000 o swyddi newydd.

*Tynnwyd cwestiwn 12 (OAQ18725) yn ôl.*

### Band Llydan yn Rhanbarth Canol De Cymru

**C13 Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hybu'r defnydd o dechnoleg band llydan yn rhanbarth Canol De Cymru? (OAQ18727)

**Andrew Davies:** Mae annog y galw am wasanaethau band llydan a phobl i'w mabwysiadu yr un mor bwysig a mesurau i ysgogi eu cyflwyno a'u darparu. Bydd y cynllun i weithredu'r adroddiad Analysys, y gobeithiaf ei gyhoeddi yn y dyfodol agos, yn hollbwysig i fynd i'r afael â'r mater o annog pobl i fabwysiadu band llydan. Dylai symbylu'r galw am wasanaethau helpu i gynnyddu'r ddarpariaeth a dylai hyn, maes o law, arwain at fynediad ehangach a chynnydd pellach mewn darparu gwasanaethau band llydan a faint o bobl sy'n eu mabwysiadu. Mae gobaith y bydd y dull gweithredu cytbwys hwn rhwng cryfhau darpariaeth a galw yn helpu i greu'r amgylchiadau fydd yn galluogi i fwy o wasanaethau band llydan gael eu cyflwyno a'u mabwysiadu.

### Cronfeydd Strwythurol Ewrop

**C14 Janet Ryder:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod yr arian o gronfeydd strwythurol Ewrop sy'n cael ei ddyrannu i Gymru yn cael ei drosglwyddo'n llawn gan Drysorlys y DU i'r Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ18769)

**Andrew Davies:** Ein blaenoriaeth ar gyfer yr adolygiad o wariant presennol yw sicrhau y gallwn barhau i sicrhau cyllid ar gyfer cronfeydd strwythurol Ewrop yn ychwanegol at y trefniadau fformiwla Barnett

arferol. Trafodais y mater hwn gyda'r Prif Weinidog a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, ac maent wedi datgan ein safbwynt yn glir i'r Trysorlys ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

### Menter Workability Cymru

**C15 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y fenter Workability Cymru? (OAQ18729)

**Andrew Davies:** Fe lansiais y fenter Workability Cymru ar 14 Mai yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd. Mae hwn yn brosiect Cymreig annibynnol wedi ei seilio ar bartneriaeth weithredol rhwng Leonard Cheshire, y prif ddarparydd gwasanaethau cymorth y sector gwirfoddol ar gyfer pobl anabl yn y DU, a Choleg Gwent, y coleg addysg bellach mwyaf yn Nghymru, i ddarparu hyfforddiant ar-lein i gleientau drwy Gymru gyfan.

## Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Sir Benfro

**C5 Richard Edwards:** Sut y mae Sir Benfro wedi elwa o ganlyniad i benderfyniadau gwariant Llywodraeth Cynulliad Cymru ers 1999? (OAQ18746) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Cafodd Sir Benfro fudd mawr o benderfyniadau gwariant Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel pob rhan o Gymru.

- Ar wahân i ITV Digital/Manpower, bu saith prosiect buddsoddi yn Sir Benfro y disgwylir iddynt ddenu bron i £6 miliwn mewn gwariant cyfalaf a chreu dros 300 o swyddi.
- Mae grant y Cynulliad a dalwyd i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro wedi cynyddu dros £780,000 (41 y cant) yn y cyfnod 1999-2000 i 2002-03. Dyrannwyd £750,000 yn ychwanegol hefyd i awdurdod y parc ers Ebrill 2000 ar gyfer gweithredu'r gronfa ddatblygu amgylcheddol yn y parc i gefnogi prosiectau datblygu cynaliadwy arloesol.

*Atebwyd cwestiynau 6, 7 ac 8 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Cyllideb 2003-04

**C9 Peter Black:** Pa adnoddau ychwanegol a fydd ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer cyllideb 2003-2004? (OAQ18734)

**Edwina Hart:** Ni fyddaf yn gwybod pa adnoddau ychwanegol fydd ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf nes bydd y Canghellor yn datgan canlyniad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yng Ngorffennaf.

### Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant

**C10 Rhodri Glyn Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor ynghylch gofynion ei bortffolio mewn perthynas â'r adolygiad cynhwysfawr o wariant arfaethedig? (OAQ18705)

**Edwina Hart:** Trafodaf y materion hyn gyda'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor fel rhan o gylch cynllunio'r gyllideb.

### Cyllideb Addysg

**C11 Mick Bates:** A oes gan y Gweinidog gynlluniau i gynyddu'r gyllideb addysg? (OAQ18749)

**Edwina Hart:** Trafodir y mater hwn yng nghylch cynllunio'r gyllideb.

**Athletwyr o Gymru**

**C12 John Griffiths:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddyrannu cyllid ychwanegol un-tro o gyllideb y Cynulliad i gefnogi athletwyr o Gymru sy'n cystadlu yng Ngemau'r Gymanwlad? (OAQ18801)

**Edwina Hart:** Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i ddarparu cyllid ychwanegol un-tro o gyllideb y Cynulliad i gefnogi athletwyr o Gymru sy'n cystadlu yng Ngemau'r Gymanwlad ym Manceinion. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru eisoes wedi darparu cymorth ariannol i Gyngor Gemau'r Gymanwlad Cymru, sy'n gyfrifol am dîm Cymru.

**Prosiect Siambr Newydd y Cynulliad**

**C13 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch faint o arian sydd wedi'i wario hyd yn hyn ar brosiect siambr newydd y Cynulliad? (OAQ18694)

**Edwina Hart:** Dyma gyfanswm y costau sy'n gysylltiedig ag adeilad y Cynulliad hyd yn hyn:

| | |
|---|---|
| Costau adeiladu | £2.588 miliwn |
| Ffioedd proffesiynol | £3.608 miliwn |
| Costau ystadau a chostau cyfreithiol | £0.426 miliwn |
| **Cyfanswm (yn cynnwys TAW)** | **£6.622 miliwn** |

**Hyrwyddo a Hysbysebu Polisïau'r Cynulliad**

**C14 Phil Williams:** Faint y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i wario hyd yn hyn eleni ar hyrwyddo a hysbysebu ei bolisïau? (OAQ18709)

**Edwina Hart:** Hyd at 24 Mehefin, gwariodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £735,740 ar gyhoeddusrwydd yn y flwyddyn ariannol bresennol. Yr oedd y gwariant hwnnw'n cynnwys ymgyrchoedd hyrwyddo a hysbysebu mawr ar ddiogelwch ffyrdd, tocynnau bws am ddim i bobl hŷn ac anabl, ac wythnos agored y gwasanaeth iechyd gwladol.

**Cyllideb Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth**

**C15 Pauline Jarman:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog dros yr Amgylchedd ynghylch y cyllid sydd ei angen o fewn ei maes cyfrifoldeb hi ar gyfer hyrwyddo polisïau'r Llywodraeth? (OAQ18711)

**Edwina Hart:** Trafodaf y materion hyn gyda'r Gweinidog dros yr Amgylchedd fel rhan o gylch cynllunio'r gyllideb.